Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro
# Lefel y dilyniant:  monitro gan Estyn

**Cylch Meithrin Tregarth**
**Canolfan Gymuned Tregarth**
**Tregarth**
**Bangor**
**Gwynedd**
**LL57 4AW**

**Dyddiad yr ymweliad:  Ionawr 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Dyfrig Ellis | Arolygydd Cofnodol |
| Gwyn Williams | Arolygydd Tîm |

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Cylch Meithrin Tregarth wedi gwneud digon o gynnydd mewn perthynas â’r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd ym mis Gorffennaf 2015.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu’r lleoliad o unrhyw weithgarwch dilynol pellach.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Gwella safonau llythrennedd a rhifedd y plant

Cynnydd cryf wrth fynd i’r afael â’r argymhelliad

Mae’r lleoliad yn darparu cyfleoedd da er mwyn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant ac maent yn eu caffael yn hyderus ar draws y meysydd dysgu. Mae gan lawer fedrau llafar cadarn ac maent yn siarad yn frwdfrydig am yr hyn maent yn ei wneud. Maent yn defnyddio geirfa gyfoethog a gan amlaf mae eu cystrawen yn gywir a’u hynganiad yn glir a dealladwy. Mae mwyafrif y plant yn defnyddio patrymau iaith Cymraeg yn bwrpasol heb anogaeth gan oedolyn. Mae bron pob un yn dilyn cyfarwyddiadau yn y Gymraeg yn ofalus ac yn cyfathrebu gyda chyfoedion yn llwyddiannus wrth sgwrsio yng Nghaffi Tregarth ac wrth siarad am y tywydd.

Mae llawer o blant yn dangos diddordeb addas mewn llyfrau. Maent yn darllen ac yn adnabod eu henw wrth gofrestru. Mae’r rhan fwyaf yn ymateb yn frwdfrydig i stori Elen Benfelen a’r Tair Arth gan ddisgrifio eu hoff gymeriadau yn ogystal ag anifeiliaid gwyllt sy’n byw yn y goedwig.

Mae rhan fwyaf o’r plant yn cychwyn arbrofi gyda deunyddiau ysgrifennu gwahanol ac yn creu llythrennau a rhifau’n gywir. Mae mwyafrif yn defnyddio sialc a phaent yn rheolaidd yn yr ardaloedd allanol a thu fewn ac mae eu medrau ysgrifennu cynnar yn datblygu’n briodol. Mae lleiafrif yn cychwyn ysgrifennu eu henw, yn adnabod seiniau llythrennau cyntaf geiriau ac yn awgrymu geiriau sy'n dechrau gyda’r un sain.

Mae llawer yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn llwyddiannus wrth chwarae yn y siop ac wrth greu siapiau gwahanol allan o glai. Maent yn rhifo hyd at 5 yn hyderus ac mae ychydig o blant mwy abl yn rhifo hyd at 10 yn llwyddiannus wrth drefnu rhifau ar lein sychu dillad. Mae llawer yn defnyddio iaith fathemategol yn gywir mewn cyd-destun pob dydd, trwy sgwrsio am amseroedd agor a chau'r caffi a chyfri sawl plentyn sydd yn y lleoliad. Maent yn defnyddio ansoddeiriau fel ‘bach’ a ‘mawr’ yn gywir wrth adeiladu blociau ac wrth grwpio gwrthrychau yn ôl lliw, maint a siâp.

### Argymhelliad 2: Datblygu gwell strategaethau i reoli ymddygiad a lefelau sŵn y plant yn yr adeilad

Cynnydd da iawn wrth fynd i’r afael â’r argymhelliad

Mae gan y lleoliad drefniadau cadarn iawn ar gyfer sicrhau bod y plant yn dilyn rheolau a chanllawiau ymddygiad clir. Mae rheolau’r lleoliad wedi eu gwreiddio ac mae gan y rhan fwyaf o’r plant ddealltwriaeth dda iawn o ymddygiad derbyniol ac annerbyniol. Mae bron pob plentyn yn gwrando’n dda ac yn awyddus i ddysgu.

Sail gadarn i hyn yw’r gofal a ddangosir gan yr ymarferwyr tuag at y plant, yn ogystal â disgwyliadau uchel o ran ymddygiad. Mae’r holl ymarferwyr yn sicrhau bod pob plentyn yn derbyn cyfarwyddiadau clir er mwyn gwybod yn union beth sydd angen ei wneud.

Yn dilyn hyfforddiant pwrpasol, mae’r ymarferwr yn cydweithio’n dda â’i gilydd i sicrhau cysondeb wrth reoli ymddygiad plant. Mae strategaethau ar gyfer hyrwyddo ymddygiad positif yn cynnwys canmoliaeth gofalus a chyflwyno sticeri pan fo hynny’n briodol. Yn ogystal, mae’r ymarferwyr yn defnyddio pypedau yn effeithiol er mwyn modelu ac atgyfnerthu ymddygiad da. Mae’r arfer o wobrwyo plant trwy adael iddynt gymryd Doti’r ci adref yn cyfrannu’n effeithiol at awydd y plant i ganolbwyntio am gyfnodau estynedig. Mae hyn yn cael effaith bositif ar eu hymddygiad. Mae gan ymarferwyr strategaethau priodol er mwyn ymateb i ymddygiad annerbyniol. Maent yn atgoffa’r plant yn rheolaidd i ddefnyddio traed a lleisiau tawel yn ogystal â thalu sylw i’r angen i ‘eistedd yn smart’.

Mae ymarferwyr yn sicrhau eu bod yn cynllunio’n fwriadus er mwyn datblygu medrau cymdeithasol y plant. Mae cyflymder y gweithgareddau yn bwrpasol iawn ac mae cydbwysedd da iawn i blant symud ac eistedd am gyfnodau sy’n addas i’w hoed a’u gallu. Mae bron pob un o’r plant yn rhannu, yn cymryd eu tro ac yn ofalgar tuag at eu cyfoedion wrth chwarae gemau bwrdd gêm, cyd-chwarae yn y tŷ bach twt ac yn ystod amser byrbryd.

**Argymhelliad 3: Gwella ansawdd yr addysgu i herio plant yn unol â’u galluoedd**

Cynnydd cryf wrth fynd i’r afael â’r argymhelliad

Bellach, mae’r cynlluniau a’r addysgu o ddydd i ddydd yn cynnwys lefel briodol o her i lawer o’r plant. Mae’r gweithgareddau yn bodloni anghenion unigolion wrth iddynt chwarae ac yn ystod gweithgareddau mwy ffurfiol fel amser stori a sesiynau creadigol. Maent yn gwneud defnydd da o strategaethau holi ac ateb er mwyn ymestyn medrau llafar a rhifedd y plant trwy drafod digwyddiadau cyfarwydd. Maent yn bwydo’r iaith yn gelfydd ac yn atgyfnerthu medrau rhif yn rheolaidd drwy gyfeirio at goginio adref wrth baratoi bwyd yng Nghaffi Tregarth. Mae’r lleoliad yn darparu cyfleoedd addas i ddatblygu’r plant yn ddysgwyr annibynnol ac mae ymarferwyr yn gweithio’n fedrus wrth gyd-chwarae gyda’r plant.

Mae ymarferwyr yn ymestyn plant mwy abl yn briodol i ddatblygu medrau iaith ymhellach wrth chwarae gemau bwrdd amrywiol sy’n cyfateb lluniau cyfarwydd. Mae arferion dyddiol y lleoliad yn llifo’n llwyddiannus ac mae’r plant yn adnabod y drefn yn hyderus. Mae’r strwythur cadarn a phwrpasol hwn yn sicrhau bod mwyafrif o’r plant yn cael eu hymestyn yn gyson ar draws y meysydd dysgu. Mae’r ymarferwyr yn gosod ffocws cadarn ar ddarparu heriau buddiol er mwyn ymestyn medrau llythrennedd a rhifedd. Mae’r ymarferwyr yn nodi mannau cychwyn y plant yn ogystal â’r cynnydd a wnânt yn ystod sesiynau. Maent yn cychwyn defnyddio’r wybodaeth hon yn systematig i nodi’r camau nesaf yn dysgu’r plant.

**Argymhelliad 4: Sicrhau bod asesiadau rheolaidd yn arwain yn uniongyrchol at y camau nesaf yn dysgu'r plant**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers penodiad yr arweinydd newydd, mae'r lleoliad wedi sefydlu trefniadau cynhwysfawr ar gyfer asesu cyrhaeddiad a chyflawniad y plant. Mae'r holl ymarferwyr sydd ynghlwm â'r broses yn rhoi sylw manwl i gofnodi datblygiad medrau llythrennedd a rhifedd plant yn glir yn erbyn deilliannau'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r ymarferwyr yn cychwyn gwneud defnydd da o'r deilliannau asesu er mwyn cynllunio gweithgareddau sydd yn herio mwyafrif o'r plant i gyflawni safonau uchel.

Yn ddiweddar, mae ymarferwyr wedi derbyn hyfforddiant ar weithredu'r proffil asesu cychwynnol. O ganlyniad, mae adnabyddiaeth yr ymarferwyr o gyrhaeddiad y plant yn gadarn. Yn ogystal, mae ymarferwyr yn cofnodi arsylwadau dyddiol manwl iawn am gyflawniad y plant. Mae'r arsylwadau hyn yn cael eu defnyddio'n briodol i greu gwaelodlin ac i olrhain cynnydd. Mae'r trefniadau hyn yn cychwyn arwain at gynllunio gweithgareddau priodol sydd yn ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth llawer o'r plant, yn enwedig y rhai mwy abl. Mae'r lleoliad yn trefnu cyfarfodydd buddiol ar gyfer rhieni er mwyn trafod deilliannau asesu gyda nhw. Mae hyn yn sicrhau bod y rhieni yn rhannu unrhyw bryderon neu sylwadau sydd ganddynt am ddatblygiad eu plant. Mae'r person cofrestredig hefyd yn bresennol yn y cyfarfodydd hyn ac mae hyn yn rhoi trosolwg defnyddiol iddi o safonau plant ar draws y meysydd dysgu.

Mae'r lleoliad wedi derbyn cefnogaeth gadarn gan yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin i'w cynorthwyo i ddefnyddio asesiadau i gynllunio'n fwriadus ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant. Mae ymarferwyr yn ymwybodol o gyrhaeddiad unigolion ac maent yn cychwyn grwpio plant yn ôl eu hanghenion dysgu er mwyn cynllunio gweithgareddau sy'n bodloni'r anghenion hyn. Mae hyn yn cychwyn cael sylw da yn y cynllunio ac mae effaith hyn eisoes i'w gweld yn neilliannau'r plant.

Mae'r ymarferwyr yn ymwybodol o dargedau unigol y plant ac yn cynllunio'n briodol ar gyfer y camau nesaf yn eu dysgu. Er mai datblygiad diweddar yw hyn, mae eisoes yn cael effaith gadarnhaol ar safonau llafar llawer o'r plant yn ogystal â'u gallu i weithio'n annibynnol.

**Argymhelliad 5: Datblygu a chyfoethogi'r adnoddau a'r profiadau yn yr ardal allanol**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r lleoliad wedi llwyddo i wella'r ddarpariaeth ar gyfer yr ardal allanol yn sylweddol. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd cadarn o adnoddau i gyfoethogi profiadau plant yn yr ardal allanol. Maent yn cynllunio'n ofalus er mwyn defnyddio ystod eang o adnoddau diddorol ac ysgogol mewn gweithgareddau parhaus yn yr awyr agored ac mewn tasgau ffocws sy'n cyfoethogi'r dysgu.

Mae'r lleoliad wedi buddsoddi mewn ffens newydd sydd yn sicrhau bod plant yn cael mynediad diogel i'r ardal allanol. Mae sied bwrpasol i gadw offer ymarfer corf a

chyfarpar garddio i blant eu defnyddio i blannu a thrwsio'r ardd. Mae cyfleoedd buddiol ar gael i'r plant greu marciau gyda sialc a phaent a datblygu eu medrau corfforol wrth ddringo a chwarae ar y beics.

Mae'r lleoliad yn cynllunio gweithgareddau gwerthfawr ar draws y meysydd dysgu yn yr ardal tu allan. Enghraifft dda o hyn yw cymryd y plant ar daith gerdded i weld effaith yr ia ar y dail a'r glaswellt. Mae'r plant hefyd yn cael cyfleoedd cyson i ymweld â'r gymuned leol gan gynnwys defnyddio neuadd fawr y ganolfan i gynnal sesiynau corfforol pan nad yw'r tywydd yn caniatáu iddynt fynd allan. Er bod yr ardal allanol yn llawer mwy hygyrch, nid yw'r plant yn cael digon o gyfleoedd i wneud dewisiadau ynglŷn â defnyddio'r ardal yn annibynnol.

**Argymhelliad 6: Datblygu systemau'r pwyllgor rheoli, yr arweinydd a'r staff er mwyn ymsefydlu'r cynllunio strategol a'r hunanarfarnu ym mywyd dyddiol y lleoliad**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Ers yr arolygiad craidd, mae arweinydd, cadeirydd a pherson cofrestredig newydd yn weithredol yn y lleoliad. Mae aelodau'r pwyllgor rheoli, sydd hefyd yn newydd, yn deall hanfodion eu cyfrifoldebau, ac yn mynd i'r afael â nhw'n effeithiol. Mae gan yr arweinydd brwdfrydig ac egnïol weledigaeth glir ac mae'n ei rhannu'n llwyddiannus gyda'r holl randdeiliaid. Mae'r pwyllgor a'r ymarferwyr wedi gweithio'n bwrpasol ochr yn ochr â swyddogion cyswllt yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin i sefydlu a chynnal y momentwm tuag at sefydlu arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol.

Mae'r arweinydd yn adnabod y lleoliad yn dda ac mae'n adolygu ansawdd y ddarpariaeth yn rheolaidd ac yn blaenoriaethu newidiadau yn briodol. Mae ganddi ddealltwriaeth strategol, gadarn o'r cryfderau yn ogystal â'r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach. Mae'r pwyllgor rheoli yn darparu cymorth a chefnogaeth effeithiol i'r lleoliad. Mae rhaglen monitro ffurfiol wedi ei sefydlu sy'n seiliedig ar arsylwadau uniongyrchol yn ogystal â chraffu ar gynlluniau'r ymarferwyr a chyfarfodydd amserol. Mae'r adroddiadau sy'n dilyn yn arfarnol ac yn arwain at gynllunio effeithiol ar gyfer gwelliant. O ganlyniad i ymweliadau monitro rheolaidd, mae cadeirydd y pwyllgor rheoli a'r person cofrestredig hefyd yn wybodus iawn am safonau'r plant yn ogystal ag ansawdd yr addysgu. Maent yn cydweithio'n agos iawn gyda'r arweinydd a'r ymarferwyr er mwyn monitro'r cynnydd tuag at fodloni'r argymhellion. Er enghraifft, mae'r gwelliannau sylweddol i ddarpariaeth llythrennedd a rhifedd wedi arwain at fedrau da iawn ymysg llawer o'r plant.

Mae rolau a chyfrifoldebau sydd ynghlwm â chynllun datblygu'r lleoliad wedi'u diffinio'n glir. Mae'r cynllun datblygu cyfredol wedi'i seilio'n gadarn ar feysydd sydd angen eu gwella ac mae cysylltiad uniongyrchol â'r adroddiad hunanarfarnu. Mae'r cynllun yn cynnwys ystyriaethau priodol i feini prawf llwyddiant, camau gweithredu, terfynau amser a chyfrifoldebau. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys ystyriaethau costau. Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn cydweithio'n dda â'i gilydd ac yn gweithio'n galed er mwyn symud y lleoliad yn ei blaen. Goruchwylir hyn oll yn fanwl ac yn drylwyr gan gadeirydd y pwyllgor rheoli a'r person cofrestredig.

O ganlyniad i benodiad yr arweinydd a gwaith cefnogi'r pwyllgor rheoli a'r person cofrestredig, mae'r lleoliad yn darparu arweinyddiaeth strategol gadarn ac effeithiol. Bellach, mae pawb yn gweithio'n ddiflino fel tîm unedig.  Mae gan yr arweinyddiaeth ffocws clir ar gynllunio profiadau dysgu cyfoethog a lles plant er mwyn cynorthwyo'r ymarferwyr i ddatblygu plant yn ddysgwyr hyderus ac annibynnol.

**Argymhelliad 7:  Mynd i'r afael â'r materion sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae gan y lleoliad bolisi a gweithdrefnau effeithiol ar gyfer diogelu.  Ers yr arolygiad craidd, mae'r arweinwyr wedi cydweithio'n agos â'r awdurdod lleol er mwyn mynd i'r afael â'r materion iechyd a diogelwch a godwyd.  Mae camau priodol wedi eu cymryd er mwyn sicrhau diogelwch y plant ac mae hyn wedi dileu'r pryder gwreiddiol yn llwyr.

## Argymhellion

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn a gwella arno, dylai'r lleoliad barhau i gynnal lefel y cynnydd y mae eisoes wedi'i wneud, a pharhau i fynd i'r afael â'r argymhellion arolygu hynny lle mae angen gwneud rhagor o gynnydd.